

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau 20fed Chwefror 2014

a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin, Tre Ioan am 6.00 p.m.

Yn bresennol:

Jonathan Tudor (JT) - Ysgrifennydd

Yr Aelodau:

Karen Burch (KB) - Cadeirydd

Mark Hadley (MH) - Is-gadeirydd

Llew Thomas (LT)

Eric Davies (ED)

Jillie Gardiner (JG)

Rosemary Jones (RJ)

Chris Rankin (CR)

Caroline Evans (CE)

Glyn Evans (GE)

David Stacey (DS)

Keith Morgan (KM)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion/Siaradwyr/Y Cyhoedd

Ymddiheuriadau (Aelodau)

Y Dr. Catherine Nakielny (CK)

Eric Jones (EJ)

Don Lazenby (DL)

Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr)

Phil Stone - CNC

Mike Scott-Archer - FfMLI PCBB

	CAM GWEITH REDU
<p>Eitem 1 Croeso – Estynnodd KB groeso i bawb i'r cyfarfod. Cyfeiriodd KB â thristwch at y golled yn sgil marwolaeth Mr Eirian James, Uwch-reolwr Cefn Gwlad yn ddiweddar. Byddai KB yn ysgrifennu at yr Awdurdod ac at weddw Mr James i fynegi cydymdeimlad y Fforwm Mynediad Lleol a'i ddiolch am gyfraniad Eirian o ran gwella mynediad i gefn gwlad.</p> <p>Cyfarfodydd - cytunwyd y byddai'r Fforwm Mynediad Lleol yn y dyfodol yn cynnal ei holl gyfarfodydd yng Nghaerfyrddin yn hytrach nag mewn gwahanol fannau yn y sir. Gobeithid y byddai hyn yn annog presenoldeb.</p>	KB
<p>Eitem 2 Ymddiheuriadau - Cyflwynwyd ymddiheuriadau ac fe'u cofnodwyd.</p>	
<p>Eitem 3 Ystyried a Chymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod ar 21^{ain} Tachwedd 2013</p> <p>Cafodd y cofnodion eu gwirio a derbyniwyd eu bod yn gywir.</p>	
<p>Eitem 4 Materion yn Codi o Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21^{ain} Tachwedd 2013</p> <ul style="list-style-type: none">• Cilffordd Banc Farm (15/31 ac 15/32), Lliadiad Nennog, Brechfa. Roedd y llwybr caniataol ar hyd ymyl y cae yn cael ei ddefnyddio ac yr oedd rhywfaint o draul y byddid yn ei fonitro.• Cyfoeth Naturiol Cymru – Darllenodd JT trwy'r ymatebion a gafwyd gan Ceri Daugherty, CNC i rai o'r cwestiynau a ofynnwyd ynghylch tir mynediad agored a Llwybr Arfordir Cymru.<ul style="list-style-type: none">- Nid oedd cost na ffi i dirfeddiannwr sy'n apelio yn erbyn cynnwys tir fel	

<p>tir mynediad agored, oni bai bod y tîrfeddiannwr yn dewis penodi Asiant. Os oedd, roedd yn bosibl y byddai angen talu ffioedd.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mynydd Pencarreg – nid oedd mynediad cyhoeddus presennol nac unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus. - Llwybr Arfordir Cymru – nid oedd cyfleusterau cyhoeddus wedi'u marcio'n benodol ar fapiau sy'n hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru a luniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, er eu bod i'w gweld ar y mapiau sylfaen AO a ddefnyddiwyd - Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori ynghylch recriwtio ac yn helpu i ddehongli'r rheoliadau ynghylch recriwtio. Os oes gan Fforwm Mynediad Lleol gryfder penodol, gallai Cyfoeth Naturiol Cymru awgrymu'i fod yn batrwm o arferion da ar gyfer Fforymau Mynediad Lleol eraill. <ul style="list-style-type: none"> • Datblygiad Gorllewin Cross Hands - dywedodd KB fod Sustrans wedi derbyn y cynnig i wro Llwybr Troed Cyhoeddus 33/24 a'r ddarpariaeth feicio gysylltiedig, a hynny er gwaetha'r pryderon ynghylch y datblygiad. • Arferion Gwaith y Fforwm Mynediad Lleol – dywedodd JT fod Ian Jones, Pennaeth Hamdden a Chwaraeon CSC wedi cytuno bod angen cysylltiadau cliriach rhwng y Fforwm a'r Awdurdod, gan gynnwys aelodau etholedig perthnasol a rheolwyr neu swyddogion. Byddid yn anfon gwahoddiadau i gyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol yn y dyfodol. Byddid yn ystyried creu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mwy ffurfiol pe byddai angen. <p>Roedd KB wedi ffonio'r aelodau i'w hannog i ddod i gyfarfodydd ac i nodi'r hyn yr oedd yr aelodau'n teimlo yr oedd ei angen i wneud y Fforwm Mynediad Lleol yn fwy perthnasol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion wedi nodi y byddai'n dda cael dulliau cyfathrebu cliriach â'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor Sir.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Recriwtio i'r Fforwm Mynediad Lleol – gofynnodd KB i'r aelodau gysylltu ag aelodau newydd posibl yn eu sefydliadau/rhwydweithiau. Awgrymodd CE y gallai Cymdeithas Ymwelwyr Sir Gâr recriwtio pobl briodol. Bydd JG yn datblygu'r elfen hon. Awgrymodd eraill y gellid rhoi datganiad i'r wasg yn y Carmarthen Journal - fodd bynnag, roedd problemau o ran cael papurau newydd i gyhoeddi'r rhain. • Strategaeth Cerdded a Beicio CSC /Deddf Teithio Llesol - gofynnodd yr aelodau a ellid gwahodd Simon Charles, Rheolwr y Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd, CSC i gyfarfod yn y dyfodol a/neu ofyn iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn. 	<p>PAW B</p> <p>JG</p> <p>JT</p>
<p>Eitem 5 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy - KB</p> <p>Roedd KB o'r farn fod angen diweddarau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a gofynnodd i'r aelodau anfon sylwadau pellach ati cyn y cyfarfod nesaf. Byddai KB yn coladu'r sylwadau ac yn rhoi adroddiad yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>PAW B</p>
<p>Eitem 6 Y newyddion diweddaraf ynghylch Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol - KB</p> <p>Bydd KB yn parhau fel cadeirydd tan ddiwedd tymor presennol y Fforwm Mynediad Lleol ym mis Tachwedd/Rhagfyr eleni.</p>	

<p>Eitem 7 Recriwtio i'r Fforwm Mynediad Lleol</p> <p>Trafodwyd y mater eisoes o dan Faterion yn Codi - gweler uchod</p>	
<p>Eitem 8 Ymgynghori ynghylch Deddfwriaeth bosibl ym maes Mynediad Awyr Agored - JT</p> <p>Eglurodd JT fod Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y byddai penderfyniad ynghylch Papur Gwyrdd yn debygol o gael ei wneud ym mis Ebrill ond na fyddai'r Bil yn ymddangos tan ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad. Bu lobio brwd gan grwpiau fel Ymgyrch Mynediad Cynaliadwy Cymru sydd, yn ei hanfod, yn ffafrio peidio â newid y fframwaith cyfreithiol presennol o ran mynediad i gefn gwlad neu i ddŵr mewndirol.</p>	
<p>Eitem 9 Y newyddion diweddaraf ynghylch Llwybr Beicio Dyffryn Aman – ED a JT</p> <p>Rhannodd JT ddiweddariad byr gan Simon Charles, Rheolwr Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd CSC. Mae CSC wrthi'n prynu tir er mwyn cwblhau'r darn rhwng Golchfa'r Forge a thafarn y Rose & Crown ar hyd yr hen reilffordd. O ganlyniad i gyfyngiadau tir a pheirianeg maent yn bwriadu gwyro'r llwybr ychydig o'r Olchfa i Heol Cwmgarw (gan ddefnyddio hawl dramwy gyhoeddus bresennol a fydd yn cael ei gwella) ac ar hyd Heol Cwmgarw ei hun lle bwriedir gwneud welliannau ar y cyd â chynllun rheoli traffig/diogelwch ffyrdd er mwyn darparu dolen gyswllt barhaus. Bydd y llwybr yn ailymuno â'r hen reilffordd trwy'r lein wrth ymyl a'r tu cefn i'r ystâd ddiwydiannol ychydig gannoedd o fetrau i'r dwyrain.</p> <p>Eleni, gwelwyd gwariant yn cael ei ganolbwyntio'n bennaf ar fân waith, dylunio a phrynu tir. Cyflwynir cais i'r Gronfa Trafnidiaeth Leol yn 2014/15 ac, os yw hwnnw'n llwyddiannus, bydd modd cwblhau'r rhan olaf hon o Lwybr Beicio Dyffryn Aman ar ochr Sir Gaerfyrddin o'r ffin.</p>	
<p>Eitem 10 Unrhyw Fater Arall</p> <ul style="list-style-type: none"> • Glastir – gofynnodd yr aelodau a ellid gwahodd cynrychiolydd o Gyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru i gyfarfod yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm. • Nantgronw – rhoddodd CR wybod bod arwyddion wedi diflannu. Credid mai tir Cyfoeth Naturiol Cymru oedd hwn ac y dylid rhoi gwybod i'r corff hwnnw yn y lle cyntaf. • Prosiect Cysylltu Fferm Wynt Brechfa – Roedd gwahanol gyfarfodydd ymgynghori. Dywedodd MH y dylai'r Fforwm ddatgan na ddylid cau'r llwybrau hawliau Tramwy Cyhoeddus yn ystod y gwaith adeiladu. Bydd KB yn ymateb. • Llwybr Arfordir Cymru – gofynnwyd a allai'r mater hwn fod yn eitem reolaidd ar yr agenda gan fod yn llwybr â blaenoriaeth. • Adroddiadau – gofynnwyd a oedd modd i Barcmyr CSC roi adroddiad bob chwarter ar yr hyn sy'n digwydd yn eu hardaloedd. • Gorchmynion Rheoli Cŵn - a oedd rhai yn Sir Gaerfyrddin? • Trwyn Wharley – holodd DS ynghylch Llwybr Arfordir Cymru a thrafodwyd y llwybr troed yn Nhrwyn Wharley, Llansteffan. Cadarnhaodd JT fod cais wedi dod i law yn honni bod darn o'r llwybr o flaen The Pheasantry yn hawl dramwy gyhoeddus. 	<p>JT</p> <p>KB</p> <p>JT</p>

Eitem 13 Dyddiad/Lleoliad y Cyfarfodydd Nesaf

Cytunwyd ar ddyddiadau'r cyfarfod nesaf a chyfarfodydd yn y dyfodol a gynhelir ar ddydd Iau am 6pm yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin fel a ganlyn:

22 Mai 2014

21 Awst 2014

20 Tachwedd 2014